CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD LLUN, 7 MEDI 2026

COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 7 MEDI 2026 YN 10:00

Presennol o bell

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

JPD Blundell	N Clarke	HJ David	M L Hughes
J Llewellyn-Hopkins	R L Penhale-Thomas	T Thomas	AJ Williams
MJ Williams	E D Winstanley		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

F D Bletsoe, H Griffiths a/ac S J Griffiths
Y Cynghorydd Colin Davies – Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd Hywel Williams	Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid
Y Cynghorydd Melanie Evans	Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol
Y Cynghorydd Martyn Jones	Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc
Y Cynghorydd Eugene Caparros	Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)
Y Cynghorydd Gary Haines	Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)
Jake Morgan	Prif Weithredwr
Carys Lord	Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Kelly Watson	Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol
Claire Marchant	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Stacey Forde	Pennaeth Perfformiad, Gweithlu a Newid Diwylliannol
Daniel Taylor	Pennaeth Trawsnewid a Digidol
Martin Morgans	Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth
Kate Pask	Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Gayle Shenton	Pennaeth Dysgu
Tanya Smith	Pennaeth Strategaeth, Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid

This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Swyddogion:

Jessica McLellan	Swyddog Craffu
Oscar Roberts	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Datganiadau o Fuddiannau
Dim.

209. Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2026-27

Y Penderfyniad Wnaed	PENDERFYNWYD: 1. Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull gwella dau-gam arfaethedig ar gyfer swyddogaeth Perfformiad Corfforaethol, ond mynegodd bryder ynghylch y diffyg manylion ynglŷn â'r nodau perfformiad sydd wedi eu hadnewyddu a'u rhesymoli. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y bydd Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar yr 22ain o Fedi. Fodd bynnag, **gofynnodd** am iddo gael ei gyflwyno'n ôl i Gyfarfod Arbennig y Pwyllgor ar 25 Medi 2026, gyda'r canlynol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad: a. Pa Ymrwymiadau a Dangosyddion Perfformiad sydd wedi cael eu hychwanegu a pha rai sydd wedi cael eu tynnu allan, ynghyd â'r rhesymeg ar gyfer pob un; b. Sut y perfformiodd yr awdurdod lleol yn erbyn ei dargedau yn 2025/2026; a c. Thargedau'r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2026-27.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

210. Model Trawsnewid Llywodraethu a Gweithredu Corfforaethol

Y Penderfyniad Wnaed	PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth ychwanegol: 2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion pellach ynghylch y berthynas a fwriedir rhwng y Bwrdd

	Trawsnewid a byrddau sefydledig eraill, megis Bwrdd y Rhaglen Gyfalaf, gan gynnwys sut y byddant yn rhyngweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau bod eu priod swyddogaethau wedi cael eu diffinio'n glir. 3. Bu'r Pwyllgor yn trafod swyddogaeth y Bwrdd Trawsnewid o ran darparu her gynghorol; **gofynnodd** am fanylion ynghylch sut y câi cost-fudd prosiectau ei fonitro a'i reoli, ac a fyddai gan y Bwrdd Trawsnewid ddigon o bwerau i flaenoriaethu prosiectau – neu beidio â'u blaenoriaethu – yn unol â hynny. 4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch sut y byddai meysydd gwasanaeth sydd efallai fwyaf angen eu trawsnewid yn cael eu cynorthwyo i gyflwyno achos busnes, a **gofynnodd** am fanylion pellach ynglŷn â'r ffordd y caiff hyn ei reoli a sut y caiff y Model Trawsnewid ei gyfleu i bob rhan o'r Cyngor. 5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion y ffordd y caiff y Model Trawsnewid ei gymhwyso i gefnogi trawsnewid mewn ysgolion. 6. **Gofynnodd** y Pwyllgor i ystyriaeth gael ei rhoi i ymgysylltu ag Undebau Llafur cydnabyddedig ynghylch y Model Trawsnewid pan fydd materion yn codi sy'n ymwneud â'r gweithlu.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

211. Materion Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	7 Medi 2026

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon, os gwelwch yn dda.

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:04.

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg